# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nos Iau, 25 Hydref 2018.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Siôn Ifans, Paul Hughes, Gareth W Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, William N Owen, Gwenfair E Rhys-Davies, Geraint Wigley.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Aled Griffiths, D Gwyn Jones, Huw Williams

**18.69: Datganiadau o diddordeb.**
Dim.

**18.70: Cofnodion cyfarfod 27ain o Fedi 2018.**
70.1: Nododd nifer o'r cynghorwyr nad oedd unrhyw gyfeiriad at sefyllfa yswiriant y Cyngor yn y cofnodion. Cytunwyd fod angen cynnwys hyn yn y cofnodion. Cynnig Paul Hughes, eiliwyd gan Gwen Lloyd.
70.2: Cyfeiriwyd at 18.59 *"Mi fydd y Clerc yn ceisio cyflwyno'r cyfrifon cyn diwedd Mis Awst."* fel eitem newydd 18.54.3. Cytunwyd nad dyma a gytunwyd, yn hytrach "Mi fydd y Clerc yn cyflwyno'r cyfrifon cyn diwedd mis Awst". Cynnig Gwenfair E Rhys Davies, eiliwyd gan Gwen Lloyd.
Ar y sail fod y newidiadau yma yn cael ei gwneud cynnigiwyd ei bod yn gywir. Cynnig William N Owen, eiliwyd gan Geraint Wigley.

**18.71: Materion yn codi o'r cofnodion.**
71.1: Holodd S Gareth Owen am ddiweddariad ar y sefyllfa ynglyn a'r coed yng Nghwmllinau. Nid oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw ddiweddariad. Cytunwyd fod angen trafod gyda'r Cyng. Sir Elwyn Vaughan am y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.
71.2: Yn dilyn ymweliad gan Geraint Wigley ac Iwan Pughe Jones â mynwent Darowen. Nodwyd fod y fynwent yn edrych yn daclus a bod gwaith da wedi ei wneud yno gan y contractiwr torri gwair. Fe wnaed sylw fod nifer o goed ifanc yn tyfu yno a bod angen eu torri er mwyn arbed gwaith yn y dyfodol.

**18.72: Cynllunio.**
Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod hwn.

**18.73: Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**
73.1: Talwyd £10 i'r Blewyn Glas am hysbyseb ar gyfer Clerc newydd.
73.2: Talwyd £470 i "Came & Company" sef yswiriant y Cyngor.
73.3: Derbyniwyd anfoneb o £140 gan Ganolfan Glantwymyn am logi'r ystafell gyfarfod. Cytunwyd i'w dalu. Cynnig Gwen Lloyd, eiliwyd gan S Gareth Owen.
73.4: Nododd y Cadeirydd Dafydd Evans bod anfoneb yn ddyledus gan y cyn Glerc hyd at ddiwedd Medi 2018. Cynigiwyd gwahodd anfoneb manwl gan y cyn Glerc am y cyfnod o dan sylw. Cynnig William N Owen, eiliwyd gan Aeron Pughe.
73.4: Nododd Gwen Lloyd fod angen trafodaeth yn y dyfodol agos am y broses o dalu anfonebau ac ysgrifennu sieciau ac y dylid ond talu sieciau yn ystod neu ar ddiwedd cyfarfod o'r cyngor. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
73.5: Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â'r banc yn Aberystwyth a'i fod wedi derbyn rhif ffôn y tim 'mandate'.

**18.74: Clerc y Cyngor**
74.1: Nodwyd nad oedd cais wedi ei dderbyn am swydd Clerc y cyngor. Cytunwyd i osod hysbyseb ym mhapur y Cambrian News am wythnos ac os na dderbynnir cais yn deillio o hwnnw i osod ail hysbyseb yn y Blewyn Glas i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Cynnig Gwen Lloyd, eiliwyd gan S Gareth Owen.

**18.75: Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
75.1: Cadarnhaodd Gwenfair E Rhys-Davies, yn dilyn newyddion gan Lywodraeth Cymru fod Sganiwr MRI yn dod i Ysbyty Bronglais erbyn 2020.

**18.76: Gohebiaeth.**
76.1: Llythyr o ddiolch gan bwyllgor Mynwent Capel Cemaes am gyfraniad tuag at dorri gwair.
76.2: Llythyr gan Gyngor ar Bopeth (Citizens Advice) yn holi am arian. Cytunwyd nad oedd hyn yn cyd-fynd gyda chanllawiau'r Cyngor.
76.3: Llythyr gan Adran Fusnes, Egni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU ynghylch deddf trydan 1989.

**18.77: Unrhyw fater arall.**
77.1: Mae'r 'Bont Fach' ger yr Eglwys yn Llanwrin yn achosi llifogydd. Cyfeiriodd William N Owen at waith gwirfoddol mae cynghorwyr yr ardal wedi ei wneud yn y gorffennol i ddatrys hyn ond fod y broblem wedi mynd yn rhy fawr a bod angen tynnu sylw Cyngor Sir Powys at hyn. Cytunwyd cyfeirio'r gwyn at y Cyng. Sir Elwyn Vaughan.
77.2: Ger troad Aberffrydlan yn Llanwrin nododd William N Owen fod draen/culvet mewn twll yno erbyn hyn yn dilyn tarmacio o'i amgylch dros y blynyddoedd. Cytunwyd cyfeirio'r gwyn at sylw'r Cyng. Elwyn Vaughan.
77.3: Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y swyddfa archwilio wedi derbyn ymateb gan y Cyngor yn deillio o ganfyddiadau'r archwiliad (audit).
77.4: Cytunwyd fod angen pwynt ar agenda cyfarfod mis Tachwedd i gadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar y 3ydd o Hydref.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05yh.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau, 29ain o Dachwedd 2018 am 7.30yh.**